# Powys County Council
# Councillor's Annual Report

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 16 May, 2018. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

| | |
|---|---|
| **Councillor:** Matthew J. Dorrance | **Tel/Mobile:** 01874 611980/ 07507 597503 |
| **Ward:** St. John | **website:** www.matthewdorrance.com |
| **Shire:** Brecknockshire | **Email:** cllr.matthew.dorrance@powys.gov.uk |
| **Group:** Welsh Labour | **Date:** September, 2018 |

**Section 1: Role & Responsibilities**

Details of the Committees and Working Groups in which I participated and my attendance are available via the following link to my page on the Council website:
https://powys.moderngov.co.uk/mgAttendance.aspx?XXR=0&DR=18%2f05%2f2017-16%2f05%2f2018&ACT=Go&UID=123

I was Chair of the Democratic Services Committee, the Brecknockshire Area Committee and the Member Development Working Group.

I was the Welsh Labour Group Leader.

I served on the following outside organisations:
Priory Church in Wales School Governing Body
Ysgol y Bannau Governing Body

**Section 2: Constituency activity**

I have remained an active local Councillor and continued to hold regular advice surgeries for residents in Brecon, St John Ward in addition to holding regular street surgeries across the ward.

I led the campaign to try and save Brecon Youth Centre from closure and presented a petition with more than one thousand signatures to the Cabinet Member. Following the closure, I have continued to press the Cabinet on the issue and I have used opportunities at Council meetings to call for the decision to be overturned.

I launched the "Love where you live" campaign earlier in the year and I have held a series of meetings with residents and stakeholders as well as litter picking sessions. It is hoped that the campaign will develop stronger community links between residents and local services so that our community can better address problems and concerns.

By working with the Town Council, I secured funding to upgrade Pontwilym Play Park and following consultation with schools in Brecon the work is being scheduled to improve the local facility.

I work closely with Priory Church in Wales School and I was very pleased to officially open the school's new peace garden and Teepee project.

I am Chair of the Friends of the St John Centre and I actively support the projects based at the centre which include the Over 50s Lunch Club and Brecon Food Bank. This year we

hosted our second Great Get Together event and we organised a summer trip to Aberglasney Gardens for the Lunch Club members.

I have continued to deliver my “Local Voice” newsletter to each household in my ward four times a year. This aims to keep residents up to date with my work as their local representative and allow my constituents to contact me about any issues they need help or advice with.

I have continued to use social media like facebook and twitter to have virtual surgeries with residents to make myself as accessible as possible and I have refreshed my website where constituents can keep up to date with my work, sign up to my local campaigns and share events and discussions (www.matthewdorrance.com).

I met regularly with Council Officers to deal with issues raised by residents and I try to find a resolution to local concerns. I continue to work with Town Councillors in Brecon, St John to get the best deal for local people.

In County Hall, I have used the full Council meetings as an opportunity to hold the executive to account and I have asked questions of the Cabinet Members on issues including Housing, Equalities and Social Justice.

**Section 3: Learning & Development**

Details of my attendance at learning and development sessions are available via the following link to my page on the Council website:
https://powys.moderngov.co.uk/mgListTraining.aspx?XXR=0&DR=18%2f05%2f2017-16%2f05%2f2018&ACT=Find&UID=123&RPID=2065915

**Section 4: Outside organisations and other activities**

In addition to my role as the Councillor for Brecon, St John Ward I am the Leader of the Council’s Welsh Labour Group. As a Group Leader, I am responsible for the day to day running of Labour in local government and I work closely with Labour Councillors to develop our policy ideas and to hold the Council’s Cabinet to account.

I am a Member of Brecon Town Council, Chair of the St John Centre Friends and a Trustee of the Edmund Jones Charity.

# Cyngor Sir Powys
# Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben 16 Mai, 2018. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd:** Matthew J. Dorrance | **Ffôn:** 01874 611980/ 07507 597503 |
| **Ward:** Sant Ioan | **Gwefan:** www.matthewdorrance.com |
| **Ardal:** Sir Frycheiniog | **E-bost:** cllr.matthew.dorrance@powys.gov.uk |
| **Grŵp:** Llafur Cymru | **Dyddiad:** Medi 2018 |

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Mae manylion y Pwyllgorau a Gweithgorau yr wyf wedi cymryd rhan ynddynt ynghyd â fy mhresenoldeb ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor: https://powysw.moderngov.co.uk/mgAttendance.aspx?XXR=0&DR=18%2f05%2f2017-16%2f05%2f2018&ACT=Go&UID=123

Roeddwn yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, Pwyllgor Sir Frycheiniog a'r Gweithgor Datblygu Aelodau.

Roeddwn yn Arweinydd Grŵp Llafur Cymru.

Gwasanaethais ar y cyrff allanol hyn:
Corff Llywodraethu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Priordy
Corff Llywodraethu Ysgol y Bannau

**Adran 2: Gweithgaredd yr etholaeth**

Rwyf wedi parhau'n Gynghorydd lleol gweithgar ac wedi parhau i gynnal cymorthfeydd cynghori rheolaidd i drigolion yn Ward Sant Ioan, Aberhonddu, yn ychwanegol at gynnal cymorthfeydd stryd rheolaidd ar draws y ward.

Arweiniais yr ymgyrch i geisio achub Canolfan Ieuenctid Aberhonddu rhag cau a chyflwynwyd deiseb gyda mwy nag un mil o lofnodion i'r Aelod Cabinet. Yn dilyn cau'r ganolfan, fe wnes i barhau i roi pwysau ar y Cabinet gyda'r mater ac rwyf wedi defnyddio cyfleoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor i alw am wyrdroi'r penderfyniad.

Yn gynharach yn y flwyddyn, lansiais ymgyrch "Caru lle'r ydych yn byw" ac rwyf wedi cynnal cyfres o gyfarfodydd gyda thrigolion a rhanddeiliaid ynghyd â sesiynau codi sbwriel. Y gobaith yw y bydd yr ymgyrch yn datblygu cysylltiadau cymunedol cryfach rhwng trigolion a gwasanaethau lleol fel y gall ein cymuned fynd ati i drafod problemau a phryderon yn well.

Trwy weithio gyda Chyngor y Dref, rwyf wedi sicrhau nawdd i ddiweddaru Parc Chwarae Pontwilim ac yn dilyn ymgynghoriad gydag ysgolion yn Aberhonddu, mae'r gwaith yn cael ei amserlennu i wella'r cyfleuster lleol.

Rwyf yn gweithio'n agos ag Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Priordy ac roeddwn yn falch iawn i agor gardd heddwch newydd a phrosiect Tipi'r ysgol yn swyddogol.

Rwyf yn Gadeirydd Ffrindiau Canolfan Sant Ioan ac rwy'n weithgar wrth gefnogi prosiectau a leolir yn y ganolfan sy'n cynnwys Clwb Cinio Dros 50 oed a Banc Bwyd Aberhonddu. Eleni, fe wnaethom gynnal ein hail ddigwyddiad Dod at ein Gilydd ac roeddem wedi trefnu taith haf i Erddi Aberglasney i aelodau'r Clwb Cinio.

Rwyf wedi parhau i gyflwyno fy nghylchlythyr "Llais Lleol" ("Local Voice") i bob aelwyd yn fy ward bedair gwaith y flwyddyn. Nod y cylchlythyr hwn yw cyflwyno'r newyddion diweddaraf i drigolion am fy ngwaith fel eu cynrychiolydd lleol a chaniatáu i'm hetholwyr gysylltu â mi am unrhyw faterion y maent angen help neu gyngor yn ei gylch.

Rwyf wedi parhau i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Thrydar i gael cymhorthfeydd rhithiol gyda thrigolion er mwyn sicrhau fy mod o fewn cyrraedd cymaint ag sy'n bosibl ac rwyf wedi diweddaru fy ngwefan lle y gall etholwyr wybod y diweddaraf am fy ngwaith, ymuno gyda'm hymgyrchoedd lleol a rhannu digwyddiadau a thrafodaethau (www.matthewdorrance.com).

Rwyf yn cwrdd gyda Swyddogion y Cyngor yn rheolaidd i drafod materion a godwyd gan drigolion ac rwy'n ceisio dod o hyd i atebion i bryderon lleol. Rwyf yn parhau i weithio gyda Chynghorwyr Tref yn Ward Sant Ioan, Aberhonddu i gael y ddel orau i bobl leol.

Yn Neuadd y Sir, rwyf wedi defnyddio cyfarfodydd llawn y Cyngor fel cyfle i ddal yr adran weithredol yn atebol ac rwyf wedi gofyn cwestiynau i Aelodau'r Cabinet ar faterion yn cynnwys Tai, Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

**Adran 3: Dysgu a Datblygu**

Mae manylion fy mhresenoldeb yn y sesiynau dysgu a datblygu ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor:
https://powysw.moderngov.co.uk/mgListTraining.aspx?XXR=0&DR=18%2f05%2f2017-16%2f05%2f2018&ACT=Find&UID=123&RPID=2229140&LLL=1

**Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill**

Yn ychwanegol at fy rôl fel Cynghorydd dros Ward Sant Ioan, Aberhonddu, rwyf hefyd yn Arweinydd Grŵp Llafur Cymru'r Cyngor. Fel Arweinydd y Grŵp, rwyf yn gyfrifol am redeg Llafur yn ddyddiol o fewn llywodraeth leol ac rwyf yn gweithio'n agos gyda Chynghorwyr Llafur i ddatblygu ein syniadau ar bolisi ac i ddal Cabinet y Cyngor yn atebol.

Rwyf yn aelod o Gyngor Tref Aberhonddu, yn Gadeirydd Ffrindiau Canolfan Sant Ioan ac yn Ymddiriedolwr ar gyfer Elusen Edmund Jones.